Rhif: **WG20814**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Polisi Llwybrau Dysgu 14–19: y ffordd ymlaen

Dyddiad cyhoeddi: **Ionawr 2014**

# Polisi Llwybrau Dysgu 14–19: y ffordd ymlaen

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau Lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau yn y sector addysg bellach, penaethiaid ysgolion a gynhelir a phartïon eraill â diddordeb. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r **ymatebion** i ymgynghoriad ar gyfeiriad polisi y Llwybrau Dysgu 14–19 yn y dyfodol. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Cefnogi Pynciau 7–19<br>Is-adran y Cwricwlwm<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ffôn: 029 2082 5837<br>e-bost: 14-19@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009<br>www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/contents<br><br>*Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Canllawiau ar y Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4* (2012)<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/pathways/learningpathwayspublications/learningandskillsmeasure/?skip=1&lang=cy<br><br>*Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Canllawiau ar y Cwricwlwm Lleol i Fyfyrwyr 16 i 18 oed* (2010)<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/pathways/learningpathwayspublications/learningandskills/?lang=cy<br><br>*Llwybrau Dysgu 14–19: Yr Adolygiad o Ddarpariaeth Gydweithredol Leol yng Nghyfnod Allweddol 4* (2013)<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/reports/review-local-collaborative-provision-key-stage-4/?skip=1&lang=cy |

ISBN digidol 978 1 4734 0870 8
© Hawlfraint y Goron 2014
WG20814

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb o ymatebion | 2 |
| Ymateb Llywodraeth Cymru | 10 |
| Rhestr lawn o ymatebwyr | 12 |

## Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i gasglu barn ar gynigion i newid elfennau o'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19.

Cymeradwywyd y prif gynigion ar gyfer newid i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn awgrymu bod lle i wella cydraddoldeb ledled Cymru o ran profiadau dysgu Cyfnod Allweddol 4 (CA4).Yn benodol, mae rhai ysgolion a rhai ardaloedd awdurdod lleol yn wynebu anawsterau gweithredol wrth geisio darparu dewis ehangach o dan y trefniadau presennol.

Roedd argymhellion y Grŵp yn galw am newid i'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 gydag ystyriaeth i'r canlynol:

- cydbwysedd mwy priodol rhwng cynnig dewis i ddysgwyr ac ansawdd y dewisiadau dysgu a ddarperir yn CA4
- newidiadau sylweddol sydd wedi bod yn nhirwedd addysg Cymru dros y blynyddoedd diwethaf.

Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn yn benodol ar y broses o weithredu'r newidiadau polisi arfaethedig a fydd yn effeithio ar reoliadau, trefniadau ariannu, a chynllunio busnes a chyflawni darpariaeth 14-19.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 4 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2013. Gosodwyd cyfanswm o 10 cwestiwn ar ddogfen pro-fforma, gan ddarparu ffurflen arlein er hwylustod ar gyfer dychwelyd y ffurflen drwy ebost.

Cafodd Llywodraeth Cymru 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad oddi wrth y cyrff canlynol:

- Ysgolion
- Undebau Llafur
- Rhwydweithiau 14-19 / Awdurdodau Lleol
- Cyrff Addysg
- Cyrff Dyfarnu
- Elusennau
- Sgiliau Sector
- Unigolion

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

## Crynodeb o ymatebion

### Cwestiwn 1 – A fyddai cyflwyno Rheoliadau newydd ddechrau 2014, gan leihau nifer y cyrsiau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cwricwlwm lleol o 30 i 25, a rhoi hynny ar waith o fis Medi 2014 ymlaen, yn achosi anawsterau gweithredol penodol i'ch sefydliad/ysgol?

Er nad oedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â lleihau isafswm arlwy’r cwricwlwm lleol, roedd y mwyafrif o blaid ac roedd **pawb** yn cytuno y gellid cyflawni hyn. Roedd y sylwadau o blaid yn nodi’r rhesymau canlynol dros gefnogi’r Rheoliadau newydd:

- Rhagor o hyblygrwydd i ysgolion
- Dylai ddatrys problemau amserlennu lle, er enghraifft, mae gan ddisgyblion ar hyn o bryd gyfle i ddilyn rhagor o gyrsiau ond mewn llai o gyfuniadau
- Bydd ysgolion yn parhau i gynnig cyrsiau perthnasol / sicrhau’r ddarpariaeth fwyaf bosibl ac isafswm yn unig yw 25
- Gyda 30 o gyrsiau, mewn rhai achosion roedd y niferoedd oedd yn dewis yn isel ac felly nid oedden nhw bob amser yn hyfyw i’w rhedeg

Nododd 7% o ymatebwyr y gallai hyn achosi anawsterau gweithredol i sefydliadau o bersbectif cynllunio ac y byddai dull cyfnodol wedi bod yn well. Roedd problemau eraill a amlygwyd yn cynnwys:

- A ddylid gosod nifer penodol?
- Dylai’r gostyngiad fod yn gymwys i CA4 ac ôl-16. Gallai fod goblygiadau os na fyddai - e.e. problemau dilyniant.
- Dylai’r ysgolion fod yn gallu cwrdd â’r rheoliadau newydd, ond bydd yn arwain at leihad yn yr angen am drefniadau cydweithredol ar gyfer darpariaeth L2.

Roedd yr argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth symud ymlaen â’r cynnig hwn yn cynnwys:

- Sicrhau bod cyllid yn cael ei gynnal i gefnogi partneriaethau llwyddiannus
- Monitro’r effaith ar ddysgwyr difreintiedig yn ofalus

**Cwestiwn 2 – A fyddai cyflwyno Rheoliadau newydd ddechrau 2014, gan leihau nifer y cyrsiau galwedigaethol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cwricwlwm lleol o bump i dri, a rhoi hynny ar waith o fis Medi 2014 ymlaen, yn achosi anawsterau gweithredol penodol i'ch sefydliad/ysgol neu'n eich atal chi rhag darparu'r dewis mwyaf cytbwys i'ch dysgwyr?**

Cadarnhaodd ymatebwyr y byddai modd cyflenwi hyn; er bod cyfran uwch o’i gymharu â Chwestiwn 1 (15%) yn erbyn a/neu’n codi problemau gweithredol. Nododd rhai o’r ymatebwyr y byddai’n well pe bai rhagor o amser wedi’i neilltuo ar gyfer cyflwyno’r newidiadau hyn. Roedd problemau eraill a godwyd yn ymwneud â’r pwyntiau canlynol:

- Y canfyddiad fod statws cymwysterau galwedigaethol yn pylu (yn ogystal â lleihau isafswm yr arlwy, nododd ymatebwyr ddatblygiadau polisi eraill, gan gynnwys y newidiadau i Fagloriaeth Cymru, lle byddai dysgwyr ond yn cael dewis dau gwrs galwedigaethol tuag at y cymhwyster)
- Effaith negyddol ar y gronfa o bobl y gall diwydiant / cyflogwyr ddewis o’u plith
- Llai o gefnogaeth i ysgolion allu darparu cwricwlwm cytbwys
- Effaith ar golegau AB, drwy fod angen llai o staff i gyflenwi’r cwricwlwm a llai o angen am gydweithio
- Perygl o effaith negyddol ar ddysgwyr difreintiedig neu rai sy’n cael budd o gyrsiau sy’n addas i’w harddull dysgu, a allai yn ei dro fod ag oblygiadau ar gyfer y nifer o ddysgwyr sy’n cyflawni trothwy L2.

Amlygwyd rhai pryderon, ond roedd y mwyafrif llethol naill ai o blaid (44%) neu doedden nhw ddim yn cytuno nac yn anghytuno (41%). Ymhlith y sylwadau cefnogol roedd:

- Bod yr hyblygrwydd i gynnig mwy na thri chwrs yn parhau. Nododd nifer o ymatebwyr y byddent yn parhau i uchafu arlwy y cyrsiau os byddai hynny’n briodol i’w cohort o ddysgwyr.
- Cydnabyddiaeth fod hyn yn cyflwyno llai o her cyflenwi.
- Y posibilrwydd y gallai hyn arwain at lai o bwysau ar gyllidebau ysgol.

Roedd y canlynol ymhlith rhai o’r prif argymhellion wrth symud ymlaen â’r cynnig hwn:

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gosod gofyniad bod y pynciau galwedigaethol hyn yn dod o feysydd gwahanol er mwyn sicrhau arlwy cytbwys.
- Yr angen i fod yn eglur ynglŷn â diffiniad o’r term galwedigaethol a gwarchod statws y cymwysterau galwedigaethol yn y dyfodol
- Yr awgrym y dylai Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, os nad yw hyn eisoes wedi’i gwblhau.

**Cwestiwn 3 – A fyddai cyflwyno Rheoliadau newydd a newidiadau i'r canllawiau statudol ddechrau 2014, gan ddileu'r gofyniad ar ysgolion a cholegau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 i sgorio nifer penodol o bwyntiau wrth lunio'u cynnig cyrsiau ar gyfer mis Medi 2014, yn achosi unrhyw anawsterau gweithredol i'ch sefydliad/ysgol/coleg?**

Roedd yr ymatebion yn gryf iawn o blaid dileu'r system sgorio pwyntiau'r cwricwlwm lleol. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu dileu'r baich gweinyddol a'r hyblygrwydd cynyddol o ran dewis cyrsiau.

Dim ond 3% a nododd y gallai hyn achosi anawsterau gweithredol oherwydd y ffrâm amser. Problem arall a amlygwyd oedd y posibilrwydd y gallai ysgolion/ colegau ollwng cymwysterau â 'sgôr uchel'.

**Cwestiwn 4 – Rydym yn bwriadu diwygio canllawiau'r rhaglen i hwyluso defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion o 1 Ebrill 2014 er mwyn i ysgolion allu bod yn fwy hyblyg wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny i ddiwallu anghenion dysgwyr am gymorth, yn enwedig ym maes swyddogaeth yr anogwr dysgu (gan gynnwys costau hyfforddi staff). A fyddai newid pethau mor fuan yn achosi unrhyw anawsterau gweithredol i'ch ysgol/sefydliad? A oes unrhyw ganlyniadau posibl yr hoffech chi dynnu ein sylw atynt?**

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn arwyddo bod cefnogaeth sylweddol i fynd ymlaen â'r cynnig hwn gyda 11% yn unig yn cadarnhau eu bod yn anghytuno (er y dylid nodi bod 48% nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno). Y prif reswm dros anghytuno oedd am fod yr ymatebwyr yn ystyried y gallai rhoi cymhorthdal i feysydd ar wahân i flaenoriaethau Cenedlaethol ac ysgol beryglu gwelliannau neu effeithio ar brosiectau sydd eisoes wedi'u sefydlu drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion / Grant Amddifadedd Disgyblion. Pryder arall yn gysylltiedig â'r newid hwn oedd ei fod i'w weld yn cadarnhau'r syniad fod addysg alwedigaethol yn cael ei darparu ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr yn unig.

Roedd sylwadau oedd yn cadarnhau'r newid yn cynnwys:

- Cefnogi llacio'r cyfyngiad cyllid grant, ynghyd ag atebolrwydd cynyddol am wariant.
- Hyblygrwydd i dargedu ymhle y gellir defnyddio arian yn fwyaf defnyddiol gan gyfrannu at gynllunio strategol gwell yn gyffredinol gan ysgolion.

Serch hynny cafwyd nifer o rybuddion ac argymhellion. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen / awydd i gael:

- Cyhoeddi canllawiau diwygiedig cyn gynted â phosibl
- Trefniadau pontio

- Arian wedi'i ddiogelu ar gyfer dibenion a meini prawf penodol, er bod hynny o fewn fframwaith cymorth mwy hyblyg.

Roedd argymhellion ar gyfer symud y newid hwn yn ei flaen yn cynnwys:

- Archwilio awdurdodau lleol i fesur yr effaith
- Lle bo'n briodol, datganoli arian yn uniongyrchol i ysgolion
- Ymchwil i effeithlonrwydd swyddogaeth yr Anogwr Dysgu
- Hyblygrwydd cynyddol ond nid i'r graddau y gellir gwario arian ar flaenoriaethau amherthnasol neu ymylol.

Roedd rhai pryderon eraill yn ymwneud â chyllid a'r hyn a fydd yn digwydd y tu hwnt i 2015-16 a phryderon yn ymwneud â diffyg sgiliau iaith Gymraeg ymhlith staff y coleg.

**Cwestiwn 5 – Rydym yn bwriadu cyflwyno mwy o gynllunio strategol ac integredig o fewn y consortia o ran gwella ysgolion a'r ddarpariaeth 14–19. A ydych chi'n gweld gwerth cryfhau'r rôl honno ar lefel Ranbarthol? Pa faterion yr hoffech chi eu gweld yn cael eu hadlewyrchu yn y trefniadau cynllunio wrth eu datblygu dros y misoedd nesaf?**

Yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn galw am gryfhau'r rôl ar lefel ranbarthol (38% yn cytuno; 50% ddim yn cytuno nac yn anghytuno). Codwyd rhai pryderon ac roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf ag ansicrwydd am effeithiolrwydd y consortia. Nodwyd nad yw consortia eto wedi dangos eu bod yn gallu gweithredu eu swyddogaethau craidd, sy'n codi amheuaeth ynglŷn â chryfhau eu rôl ar hyn o bryd.

I raddau, roedd y sylwadau ategol yn gwrth-ddweud y pryderon a godwyd, gan ganolbwyntio ar y cyfleoedd yr oedd gweithio rhanbarthol cryfach yn eu cynnig. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyfle i gryfhau swyddogaethau allweddol, yn enwedig o ran rheoli a llif data.
- Hwyluso'r agenda cydweithio, gyda chynllunio integredig ar draws maes ehangach.
- Gostyngiad o ran dyblygu adnoddau.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Yr angen i ddiogelu partneriaethau sy'n bodoli ac sy'n gweithio'n effeithlon.
- Archwilio gwaith rhanbarthol mewn perthynas â thrafnidiaeth dysgwyr.
- Gwell integreiddio / cyswllt â chyrff addysg megis CyngACC, Estyn, Cymwysterau Cymru, adfywio a sgiliau.
- Dealltwriaeth o ffactorau lleol wrth edrych ar y ddarpariaeth.

- Dylai’r canllawiau statudol diwygiedig sicrhau bod rôl y consortia yn glir mewn perthynas â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a sut y bydd y consortia’n ystyried eu hamcanion wrth gynllunio darpariaeth y cwricwlwm lleol yn y dyfodol.

**Cwestiwn 6 – Drwy esblygu arian grant 14–19 i awdurdodau lleol yn drefniant ariannu mwy cyson i'r consortia lleol ar ôl y flwyddyn bontio, bydd hynny'n debygol o olygu symud oddi wrth y dull dyrannu cyllid presennol, at broses ddyrannu sydd wedi'i seilio fwy ar anghenion, a hynny o fewn terfynau cyffredinol y gyllideb. A ydych chi'n cytuno â datblygu dull ariannu ysgolion/colegau sydd wedi'i seilio fwy ar anghenion, ac sydd wedi'i dargedu fwy? Pa faterion/pryderon yr hoffech chi eu gweld yn cael sylw yn y canllawiau cynllunio wrth iddynt gael eu datblygu dros y misoedd nesaf?**

Cafwyd cefnogaeth eang i’r newid hwn **mewn egwyddor**, gyda 48% yn cytuno; 48% ddim yn cytuno nac yn anghytuno; a 4% yn anghytuno.

Cafwyd nifer o sylwadau cefnogol gydag ymatebwyr yn cefnogi datblygu system cyllido unedig a gwell tryloywder, a ddylai arwain at ragor o gydraddoldeb i ddysgwyr a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, roedd peth amheuaeth gyda nifer o ymatebwyr yn bryderus am sut y byddai’r fformiwla neu feini prawf cyllido’n ‘seiliedig ar anghenion’ yn cael eu penderfynu ac a fyddai hyn yn cynnwys ffactorau megis angen ieithyddol yn ogystal â phrydau ysgol am ddim, amddifadedd yr ardal leol etc. Roedd pryder hefyd y gallai fod angen cymorth ariannol yn lleol yn ogystal ag yn rhanbarthol, a allai arwain at greu haen ychwanegol o lywodraeth.

Y consensws oedd y byddai angen rhagor o fanylion ynglŷn â chynnig o’r fath cyn y gellid ei roi ar waith. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Byddai angen i’r holl benderfyniadau cyllido fod yn deg ac yn dryloyw. Datrysiad posibl yw trefnu bwrdd rheoli gydag uwch arweinwyr o ysgolion, colegau a darparwyr dysgu’n seiliedig ar waith yn cyfrannu at y penderfyniadau.
- Rhaid diffinio’r meini prawf sy’n sefydlu ‘angen’ yn glir, ynghyd â’r data a ddefnyddir.
- Mae angen mynd i’r afael â phroblemau lleol.

**Cwestiwn 7 - O fewn y ddarpariaeth gydweithredol leol, a ydych yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau effeithiol o ddewisiadau amgen sydd ar waith yn hytrach na bod yn rhaid i ddysgwyr deithio? A allwch chi roi manylion bras am y rhain, gan gynnwys dweud a oes cost ynghlwm wrthynt a/neu pa fudd a gaiff dysgwyr yn sgil y dull hwn?**

Roedd y cwestiwn hwn yn apelio am ddewisiadau amgen yn hytrach na theithio a nododd ymatebwyr y bydd y symudiad i ffwrdd o deithio gan ddysgwyr yn golygu y bydd angen rhagor o ddarpariaeth leol, rhagor o ddatrysiadau digidol neu ragor o ddefnydd o athrawon teithiol. Mewn

perthynas â datrysiadau digidol cydnabuwyd y byddai hyn yn dibynnu ar fuddsoddiad parhaus mewn cyfarpar, cymorth, goruchwyliaeth a seilwaith. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys rhannu'r cyflenwi rhwng colegau ac ysgolion i leihau costau a datblygu cymwysterau sydd wedi'u cynllunio i gael eu cyflenwi mewn gweithdai ysgol heb fod angen buddsoddi'n helaeth mewn adeiladau neu gyfarpar. Awgrymwyd hefyd mai un opsiwn fyddai annog dysgwyr i fod yn fwy annibynnol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, pe bai'n briodol iddyn nhw wneud hynny.

Roedd amrywiaeth barn am ddysgwyr yn teithio gyda rhai ymatebwyr yn ystyried teithio'n anghynaladwy ac yn rhywbeth a fyddai'n rhwystr i ddysgwyr wrth ddewis eu hopsiynau ac eraill o blaid teithio, gan nodi mai'r brif fantais oedd y pwysigrwydd fod dysgwyr yn gallu manteisio ar gyfarpar arbenigol sy'n aml yn angenrheidiol ar gyfer cyrsiau galwedigaethol.

**Cwestiwn 8 – A chofio bod angen parhau i bwysleisio darparu dewisiadau cyrsiau galwedigaethol priodol yng Nghyfnod Allweddol 4, er mwyn i ddysgwyr gamu ymlaen i ddysgu galwedigaethol ôl-16, a ydych chi'n gweld y gallai fod yn werth datblygu cymwysterau galwedigaethol ehangach eu sail? Sut y byddai datblygiadau o'r fath o fudd i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn eich barn chi? Beth fyddai'r ffordd orau o ddatblygu'r rhain yn eich barn chi?**

Roedd yr ymatebion yn dangos bod rhywfaint o awydd datblygu cymwysterau galwedigaethol ehangach eu sail, er nad oedd y mwyafrif (54%) yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd y sylwadau atodol yn bennaf yn ymwneud â chydnabod y byddai hyn yn ategu'r symudiad at gymwysterau Galwedigaethol Cychwynnol (IVETs)/Galwedigaethol Parhaus (CVETs) ehangach eu sail gan helpu i sicrhau na fyddai opsiynau dysgwyr CA4 yn lleihau. Roedd rhai sylwadau hefyd yn croesawu datblygu cyrsiau newydd i greu cyrsiau perthnasol a hefyd codi statws cymwysterau galwedigaethol, yr ystyrid, yn wyneb datblygiadau ehangach, eu bod mewn perygl o gael eu tanseilio. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y gallai hyn ddarparu llwybr dilyniant cliriach at y cyfnod ôl-16 a hwyluso cydweithio.

Roedd rhai ymatebwyr yn erbyn y cynnig oherwydd y nifer cynyddol o gyrsiau galwedigaethol sydd eisoes ar gael. Mynegwyd pryderon hefyd am gyllido; sut y byddai hyn yn cyd-fynd â'r ffocws cynyddol ar bynciau craidd yn sgil mesur perfformiad cynhwysol L2; colli cynnwys ymarferol, a allai gynyddu'r gyfradd o ymddieithrio yn CA4, a'r angen i barhau â rhai cyrsiau arbenigol - e.e. Adeiladu.

Cyflwynwyd  nifer o argymhellion gan gynnwys:

- Angen rhagor o dystiolaeth ar effeithiolrwydd cymwysterau eang eu sail ar gyfer hyrwyddo dilyniant a'r gwerth a roddir ar gymwysterau eang eu sail gan gyflogwyr a darparwyr ôl-16.

- Roedd awgrymiadau ar gyfer datblygu yn cynnwys: datblygu ar lefel leol gydag achrediad gan Cymwysterau Cymru; ni ddylai IVETs golli'n llwyr rhai o'r elfennau mwy ymarferol yn y cwrs; angen cysylltu â bylchau yn y farchnad gyflogaeth; angen sicrhau dilyniant uniongyrchol at gyrsiau L3 ôl-16.
- Dylid datblygu'r cymwysterau hyn i gymathu â gofynion craidd diwygiedig Bagloriaeth Cymru a datblygu mwy o ddealltwriaeth gadarnhaol o ddewisiadau cymwysterau galwedigaethol yn 16 oed a hefyd creu cyd-destun ar gyfer sgiliau generig mewn menter a chyflogaeth a fyddai'n cefnogi dilyniant at waith.
- Dylai unrhyw raglen sy'n seiliedig ar 'gymhwyster galwedigaethol eang ei sail' gynnwys profiad gwaith sylweddol.

**Cwestiwn 9 – Gan gydnabod y gwahanol ddatblygiadau polisi sy'n digwydd ym maes addysg pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, a ydych chi'n meddwl bod angen newid dulliau cyfathrebu Llywodraeth Cymru? Sut y gallem sicrhau bod ein negeseuon yn fwy cydlynol?**

Oherwydd y nifer enfawr o newidiadau ym maes addysg, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn ystyried bod angen gwell cyswllt rhwng yr holl ddatblygiadau polisi er mwyn i randdeiliaid ddeall yn llawn y rhyngweithio rhwng holl ffrydiau'r gwaith wrth ddatblygu polisi addysg cyfredol.

Nodwyd rhai elfennau cadarnhaol yn y dulliau cyfathrebu cyfredol gan gynnwys gwell cyfathrebu ers lansio Dysgu Cymru a chanmol y model a ddefnyddiwyd gan y bobl sy'n gyfrifol am strategaeth cyfathrebu Cymwysterau Cymru.

Roedd yr argymhellion ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol yn cynnwys:

- Mae angen i bob cyfathrebu gael ei gyflenwi drwy un ffynhonnell.
- Mae angen datblygu cydraddoldeb rhwng cyrsiau galwedigaethol ac academaidd a chyfleu hynny'n glir.
- Dylid gosod dysgwyr (a'u rhieni) yn gyntaf mewn unrhyw strategaeth cyfathrebu.
- Mae angen creu dealltwriaeth a chysondeb cyffredin gwell i'r neges ymhlith y gymuned broffesiynol, o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws y gymuned addysg.
- Ni ddylid esgeuluso cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn y strategaeth cyfathrebu.
- Mae angen ymgysylltu â phob parti sy'n ymwneud â darpariaeth 14-19, er mwyn sefydlu dealltwriaeth gyffredin o'r trefniadau cyllido, cyfansoddiad yr arlwy o gyrsiau a hyfywedd y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried amrywiaeth o strategaethau i sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei lledaenu a bod ymarfer gorau'n cael

ei rannu'n eang, gan gynnwys: digwyddiadau; pecynnau dysgu i ymarferwyr a chynrychiolwyr consortia; cronfa o adnoddau arlein i ymarferwyr a chynrychiolwyr consortia; defnyddio Hwb a Dysgu Cymru fel llwyfannau i ddarparu ymarfer da ac adnoddau; ymgyrchoedd yn y cyfryngau; pecynnau gwybodaeth y gall ysgolion eu defnyddio i roi gwybodaeth i rieni a dysgwyr.

**Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

Roedd y sylwadau'n cwmpasu amrywiaeth o faterion gyda rhai'n ymwneud â chyfeiriad y polisi yn y dyfodol yn ogystal â'r datblygiadau polisi ehangach. Roedd rhai o'r materion a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- Yr angen i gydgrynhoi ac i Gymru ddatblygu cynllun strategol tymor hir, gan roi ystyriaeth i alwadau cystadleuol am ddiwygiadau gwahanol i gwricwlwm Cyfnod Allweddol 4;
- Pryderon yn ymwneud â chydweithio, gan gynnwys cystadleuaeth yn parhau rhwng AB ac ysgolion a rhwng ysgolion unigol a phryderon ynglŷn â monitro cynnydd myfyrwyr a'r effaith ar draws sefydliadau;
- Yr angen i ddatblygiadau o fewn tirwedd Llwybrau Dysgu 14-19 roi ystyriaeth ddyledus i ddatblygiadau ôl-16 a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gwell i ddysgwyr wrth iddynt ystyried eu hopsiynau.
- Pwysigrwydd rhyngweithio cadarnhaol a chynhyrchiol rhwng sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau cymorth ieuenctid a sefydliadau addysg ffurfiol.

O ran cyllido, roedd safbwyntiau'n cynnwys:

- Pryderon gyda golwg ar y grant 14-19 a'r effaith a gaiff hyn ar y dysgwyr (yn enwedig ôl-16)
- Cefnogaeth i'r defnydd o grantiau penodol neu ddiogelu cyllid refeniw am gyfnodau penodol o amser ar y ddealltwriaeth y bydd cyllid yn dychwelyd yn y pen draw i'r Grant Cynnal Refeniw.
- Yr angen i ystyried cyfrwng Cymraeg yn ganolog i'r polisi yn nhermau cyllido yn hytrach na bod yn rhywbeth ychwanegol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac mae swyddogion wedi rhoi ystyriaeth i'r rhain, ar y cyd ag asesiadau perthnasol o effaith y polisi, wrth gyflwyno'r Rheoliadau.

Roedd yr ymateb cyffredinol o blaid y cynigion ac ni chodwyd unrhyw anawsterau gweithredol mawr, a'r bwriad yw y caiff y Rheoliadau eu gosod cyn gynted â phosibl i fod yn weithredol ym mis Medi 2014. Bydd y newidiadau i'r Rheoliadau'n cynnwys:

- lleihau nifer y cyrsiau sy'n gorfod cael eu cynnwys yn arlwy'r cwricwlwm lleol o 30 i 25 yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4);
- lleihau nifer y cyrsiau galwedigaethol sy'n gorfod cael eu cynnwys mewn arlwy cwricwlwm lleol o o bump i dri yn CA4;
- dileu'r gofyniad ar ysgolion a cholegau yn CA4 ac ôl-16 i gwrdd â sgoriau pwyntiau perthnasol wrth greu arlwy cyrsiau;
- dileu'r cyfyngiadau, yn nhermau parthau, sy'n berthnasol ar hyn o bryd wrth ddethol cyrsiau galwedigaethol yn CA4.

Mae'r penderfyniad i ddileu'r cyfyngiadau o ran parthau yn dilyn trafodaethau gyda Rhwydweithiau Rhanbarthol 14-19, ymatebion i'r ymgynghoriad a gohebiaeth arall.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r lleihad i'r isafswm o gyrsiau a ddylai ffurfio arlwy cwricwlwm lleol hefyd fod yn gymwys ar gyfer cyrsiau ôl-16. Fodd bynnag, ni chododd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw bryderon gydag arlwy'r cwricwlwm ôl-16 yn dilyn eu hymchwiliad i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. O ganlyniad, ni chafodd ei gynnwys yng nghylch gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gynhaliodd yr adolygiad o ddarpariaeth gydweithredol leol yn CA4.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pryderon am yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r newidiadau. Fodd bynnag, o ystyried mai'r cynnig yw lleihau'r gofyniad ni ddylai hyn fod yn broblematig. Yn nhermau cynllunio, mae cyfathrebu rheolaidd wedi bod gydag ysgolion drwy'r Rhwydweithiau 14-19, cylchlythyr Dysg a Dysgu Cymru am yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r bwriad i ymgynghori ar y newidiadau hyn. Yn ogystal, ychwanegwyd dolen at wefan y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru i hysbysu cynllunwyr cwricwlwm am y newidiadau arfaethedig. Mae'n ofynnol i ysgolion a cholegau addysg bellach gofnodi eu harlwy cwricwlwm lleol ar Gyrfa Cymru Arlein ac mae ardal adrodd y safle ar gyfer 2014/15 wedi bod ar gau wrth aros am ganlyniad yr ymgynghoriad hwn.

Caiff y sail resymegol dros osod 25 yn isafswm newydd ei chadarnhau gan ddata arlwy 2012/13, oedd yn dangos mai 26.1 oedd y nifer isaf o gyrsiau ar gyfartaledd a gymerwyd mewn ardal awdurdod lleol. O ganlyniad, dylai 25 fod yn rhif hyfyw sydd yn dal i sicrhau dewis digonol. O ran pryderon am effaith

lleihau arlwy’r cwricwlwm lleol, y bwriad yw i Estyn adolygu ansawdd ac effaith arlwy sampl yn CA4 a bydd swyddogion AdAS hefyd yn ystyried sut y gellir mesur effaith y polisi yn fwy eang. Dylid pwysleisio hefyd mai 25 yw isafswm y nifer o gyrsiau ac y gall ysgolion barhau i gynnig mwy na hynny os yw er budd y dysgwyr.

Caiff sylwadau mewn perthynas â’r symud at ddull cyllido sy’n fwy seiliedig ar anghenion eu hystyried yn fwy manwl a chaiff unrhyw newidiadau eu cyfleu i randdeiliaid cyn cael eu rhoi ar waith. Yn yr un modd, caiff sylwadau mewn perthynas â’r adnodd Grant Amddifadedd Disgyblion/Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar gyfer gweithgareddau 14-19 yn ogystal â’r awgrymiadau am ddewisiadau mwy cynaliadwy ar gyfer teithio eu hystyried wrth i ddogfennau canllaw gael eu datblygu dros y misoedd nesaf. Os caiff y cynnig i ddefnyddio cyllid Grant Amddifadedd Disgyblion/Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar gyfer anghenion cymorth dysgwyr ei gymeradwyo, ni ddisgwylir i’r effaith fod yn sylweddol. Ers 2009 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer hyfforddi nifer o Anogwyr Dysgu a’u hachredu drwy Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ac mae data yn dangos fod gan yr holl ysgolion / sefydliadau AB ar hyn o bryd ddigon o Anogwyr Dysgu’n weithredol. Mewn ymateb i bryder ai swyddogaeth yr Anogwr Dysgu yw’r defnydd mwyaf effeithiol o gyllid, mae Estyn ar hyn o bryd yn cynnal gwerthusiad o’r gwasanaethau cymorth dysgwyr, a byddwn yn ailedrych ar hyn unwaith y bydd canlyniad yr adolygiad yn hysbys.

Mae’r adborth mewn perthynas â chyfoethogi’r rôl ranbarthol yn ddefnyddiol a chaiff ei rannu gyda’r arweinwyr polisi perthnasol wrth i’r model newydd Cenedlaethol ar gyfer gwaith rhanbarthol gael ei roi ar waith dros y misoedd nesaf. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ysgrifenedig ar y cynnydd hyd yma a chynlluniau sydd ar y gweill i sicrhau y bydd y model Cenedlaethol yn weithredol o fis Ebrill 2014. Gellir gweld y datganiad drwy’r ddolen hon:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-written-ministerial-statements.htm

Caiff y sylwadau’n ymwneud â datblygu cymwysterau galwedigaethol ehangach eu sail eu hystyried gan yr Is-adran Cymwysterau a Rheoleiddio yn AdAS. Mae’r Is-adran ar hyn o bryd yn sefydlu Panel Cynghori Cymwysterau Sector fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o’r sector ac ymarferwyr, a bydd swyddogion yn defnyddio’r paneli hyn i’w harwain.

Ar sail adborth, mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod bod angen dull cyfathrebu mwy strategol, cydlynol a bydd hyn yn ystyriaeth allweddol wrth i newidiadau gael eu cyflwyno.

## Rhestr lawn o ymatebwyr

1. Rhwydwaith 14-19 Caerdydd
2. Grŵp Llywio 14-19 Ceredigion
3. Llwybrau 14-19 Rhondda Cynon Tâf
4. Cyngor Bwrdeistref Sir Merthyr Tudful
5. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
6. Grŵp Llandrillo Menai
7. Colegau Cymru
8. Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu Cymru
9. Agored Cymru
10. Pearson
11. Ysgol Uwchradd Fitzalan
12. Ysgol Gyfun Treorci
13. Ysgol Gyfun Rhydywaun
14. Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern
15. Ysgol Maesydderwen
16. Cydbwyllgor Llywodraethu Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gyfun Gwynllyw
17. Partneriaeth Data Ysgolion De Ddwyrain Cymru (Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, Ysgol Gyfun Bryntawe, Ysgol Gyfun Cymer, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Ysgol Gyfun Gwynllyw, Ysgol Gyfun Llangynwyd ac Ysgol Gyfun Rhydywaun)
18. Llywodraethwyr Cymru
19. Gyrfa Cymru
20. Comisiynydd Plant Cymru
21. Estyn
22. Mentrau Iaith Cymru
23. Comisiynydd y Gymraeg
24. Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
25. Ffederasiwn Hyfforddi Cenedlaethol Cymru (NTfW)
26. Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
27. Cymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (Cymru)
28. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
29. Undeb y Prifysgolion a Cholegau (UCU) Cymru
30. Stephen Williamson
31. Ymatebwr sy'n dymuno aros yn ddienw